# Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 4 Chwefror 2003

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm**

**Datganiad:**
**Gwnaeth y Llywydd ddatganiad ar Penderfyniad ar Bwynt o Drefn sy’n ymwneud â’r berthynas rhwng Aelodau a staff y Cynulliad**

**2.04pm**
**Cwestiynau Llafar i’r Prif Weinidog**
Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf

**2.48pm**
**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**2.53pm**
**Cynnig i drafod cynnig o gerydd o dan Reol Sefydlog 6.4**
*NNDM1331* **-** Nicholas Bourne, Peter Rogers, Glyn Davies, Jonathan Morgan, David Melding, David Davies, Alun Cairns, William Graham, David Ian Jones**:**
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ceryddu'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor am ei anallu.

**Cynhaliwyd pleidlais trwy alw enwau**

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 7; Ymatal 14; Yn erbyn 32; Cyfanswm 43
**Gwrthodwyd y cynnig**

**Cynnig i gymeradwyo The Voluntary Adoption Agencies and the Adoption Agencies (Miscellaneous Amendments) Regulations 2003 o dan Reolau Sefydlog 23.10, 23.11 & 22.25 –** ***Ni chynigiwyd yr eitem hon***
*NDM1330* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 23.10:

Yn cymeradwyo *The Voluntary Adoption Agencies and the Adoption Agencies (Miscellaneous Amendments) Regulations 2003*, y Memorandwm Esboniadol a'r Arfarniad Rheoliadol, a osodwyd i gyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau ar 28 Ionawr 2003.

**3.31pm**
**Cynnig i gymeradwyo'r Rheoliadau Safonau Gofal (Gwasanaethau Maethu) (Cymru) 2003**

*NDM1328* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1329* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Ionawr 2002;

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a'r Asesiad o Effaith Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2003.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn
O blaid 41; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 41
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**3.39pm**
**Dadl a enwebwyd gan Kirsty Williams yn unol â Rheol Sefydlog 29**
*NDM 1283* - Cynnig o dan Reol Sefydlog 29.2 bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:
1. Yn cyfarwyddo'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddwyn is-ddeddfwriaeth gerbron o dan Adrannau 77, 83, 83A a 126(4) a pharagraff 1 Atodlen 12 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 i ddarparu bod person sy'n dioddef o gyflwr cronig gydol-oes y mae angen meddyginiaeth reolaidd arno yn cael ei eithrio rhag talu am bresgripsiynau.

2. Yn nodi y bydd hyn yn chwalu'r rhwystrau ariannol diangen sy'n rhwystro pobl rhag gallu rheoli eu salwch yn effeithiol yn y tymor hir.

*DS Cyflwynwyd Dadansoddiad o Faneision ac Anfanteision ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth hon ar 28 Ionawr 2003 ac mae ar y Fewnrwyd a'r Rhyngrwyd*

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 44; Ymatal 6; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.11pm**
**Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru**
*NDM1327* - Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn gresynu at fethiant y Llywodraeth i lunio cynllun manwl sy'n caniatáu defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i sefydlu dulliau cyfathrebu ffisegol ac electronig effeithlon ledled Cymru fel elfen allweddol o economi fodern lwyddiannus;

ac yn gresynu hefyd at y methiant i sefydlu cyrff priodol gyda'r pwer i weithredu strategaethau ar gyfer Cymru o fewn y meysydd polisi hynny a reoleiddir yn gyffredinol gan yr SRA a'r OFCOM arfaethedig.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Dileu "Yn gresynu at fethiant y Llywodraeth i lunio cynllun manwl" ac yn ei le rhoi "Yn croesawu mentrau gan y Llywodraeth"

**Gwelliant 2 - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Dileu popeth ar ôl "economi fodern lwyddiannus;"

**Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu'r ail bwynt ac yn ei le rhoi:
'yn credu y dylai Cymru gael ei chynrychioli ar bob corff sy'n effeithio ar Gymru o fewn y meysydd a reoleiddir gan yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol ac OFCOM.'

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig;
Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i drafod gyda Llywodraeth y DU a oes modd iddynt sicrhau y darperir trwydded mynediad diwifr sefydlog ar gyfer cyfathrebu band eang – yn yr arwerthiant 3.4 GHz i ddechrau ac ym mhob arwerthiant wedi hynny – sy'n diwallu anghenion Cymru gyfan, yn ogystal ag yn bodloni'r gofynion o ran lledaenu'r gwasanaeth.

**Gwelliant 5 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i hasiantaethau yn y sector preifat i ddefnyddio'r rhwydwaith band eang sydd ar gael i'r sector preifat lle bynnag y bo modd, ar ôl rhoi ystyriaeth briodol i ddiogelwch, er mwyn creu mwy o alw fel y bydd y cwmnïau telegyfathrebu yn gallu cynnig costau cysylltu is i fusnesau ac i gartrefi.

**Gwelliant 6 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymrwymo i ddarparu ffordd liniaru'r M4 o Gas-bach i Fagwyr, a fyddai'n golygu bod llai o draffig yn mynd drwy Dwnelau Bryn-glas yng Nghasnewydd.

**Gwelliant 7 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:
Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymrwymo i wneud gwelliannau i'r A470, y brif ffordd gyswllt rhwng y Gogledd a'r De.

**Gwelliant 8 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymrwymo i ddarparu ffordd fodern i fynd i Faes Awyr Caerdydd.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 20; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 20; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd Gwelliant 2**

**Syrthiodd Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd y Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O Blaid 7; Ymatal 0; Yn erbyn 43; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd y Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O Blaid 7; Ymatal 0; Yn erbyn 43; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd y Gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O Blaid 7; Ymatal 0; Yn erbyn 43; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd y Gwelliant 7**

**Gwelliant 8**
O Blaid 7; Ymatal 0; Yn erbyn 42; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd y Gwelliant 8**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 20; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

Daeth y cyfarfod i ben am 5.21pm

*******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 5 Chwefror 2003**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**
**Dogfennau a Osodwyd ar 29 Ionawr 2003**

- ☐ Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Apelau yn erbyn Gwaharddiadau Parhaol) (Cymru) 2003 - LD1845
- ☐ Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Atgyfeiriadau ac Apelau) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgifenedig) (Cymru) 2003 - LD1846
- ☐ Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysiadau Gorfodi ac Apelau) (Cymru) 2003 - LD1847
- ☐ Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Gorfodi) (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cymru) 2003 - LD1848
- ☐ Rheoli Ansawdd Aer Lleol: Cyhoeddi Canllawiau Statudol Diwygiedig i Awdurdodau Lleol - Memorandwm Esboniadol - LD1849
- ☐ Local Air Quality Management Technical Guidance under part IV of the Environment Act 1995 - LD1850 - Dim fersiwn Gymraeg ar gael
- ☐ Local Air Quality management Poicy Guidance under part IV of the Environment Act 1995 - LD1851 - Dim fersiwn Gymraeg ar gael